# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **08:30 - 09:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Sarah Canning, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd y cofnodion eu nodi gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn rhoi y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth. Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Llywydd yn cynnig bod y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 fod y Bil a fydd yn cael ei alw'n Bil Sector Amaethyddol (Cymru) yn cael ei drin fel Bil brys y Llywodraeth a'r cynnig i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil hwn yn cael eu grwpio ar gyfer y ddadl ond fod y pleidleisiau arnynt yn cael eu cynnal ar wahân.

Nododd y Rheolwyr Busnes na fyddai'r terfyn amser llym arferol o 5 munud yn berthnasol yn y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru). Fodd bynnag, ni ddisgwylir i unrhyw Aelod siarad am ragor na 10 munud ar unrhyw grŵp o welliannau. Hefyd, nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r pleidleisiau mewn perthynas â'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn cael eu cynnal yn ystod trafodion Cyfnod 3 a 4.

Ddydd Mawrth, bydd y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cafodd busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf ei nodi gan y Pwyllgor Busnes.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefniadau o ran busnes, ac, oherwydd y newidiadau Gweinidogol, nododd na fyddai Dadl Fer Ken Skates, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013, yn mynd yn ei blaen.

3(iv) Dadl gan Aelod Unigol: Dewis Cynnig i'w Drafod

Cafodd y cynnig a ganlyn ei ddewis gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer dadl yn y Cynulliad:

**Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013**

- **NNDM5266**

**Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**
**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi'r ymgyrch Dim Mwy o Dudalen Tri ac yn galw ar bapur newydd The Sun i roi'r gorau i'r cynnwys hwn.

Yn y cyfarfod ar 18 Mehefin 2013, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol yn cael ei chynnal ddydd Mercher 16 Hydref 2013.

3(v) Trefnu busnes y Cynulliad: Bil Brys y Llywodraeth

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur yn amlinellu opsiynau ar gyfer trefnu busnes pe bai'r Cynulliad yn penderfynu ymdrin â'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru) fel Bil Brys a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig er mwyn i'r Cynulliad ystyried y Bil hwn.

Bu'r Rheolwyr Busnes yn ystyried yr amserlen fusnes arfaethedig, gan gytuno y byddai Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2013 yn dechrau'n syth ar ôl i Bwyllgor y Cynulliad Cyfan orffen ei fusnes, yn hytrach na phennu amser dechrau penodol.

Nododd y Rheolwyr Busnes derfynau amser arfaethedig y Llywydd ar gyfer Cyfnod 2 a 3 pe bai'r amserlen arfaethedig yn cael ei chytuno.

3(vi) Amserlen y Cynulliad

Yn dilyn trafodaethau â'r grwpiau, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried eto y dyddiadau arfaethedig ar gyfer toriadau rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2014.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymestyn tymor yr hydref 2014 1 wythos (dyddiadau dros dro ar gyfer y toriad: Dydd Llun 21 Gorffennaf – Dydd Sul 14 Medi 2014).

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

## 5 Rheolau Sefydlog

5(i) Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 22 – Safonau Ymddygiad

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar argymhelliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei Adroddiad ar Sancsiynau a gyhoeddwyd ar 15 Mai 2013 y dylid adolygu Rheolau Sefydlog.

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 22 i weithredu'r argymhelliad hwn. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'r grwpiau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch y cynigion, ac i ddychwelyd at y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 16 Gorffennaf 2013.

5(ii) Diwygio Rheolau Sefydlog: Cydsyniad Deddfwriaethol i Offerynau Statudol gan Weinidogion y DU a Biliau Preifat

Yn dilyn trafodaethau â'r grwpiau, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried eto papur yn cyflwyno cynigion i gyflwyno Rheol Sefydlog 30A newydd i sefydlu gweithdrefn ffurfiol sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Hefyd, cafodd y Rheolwyr Busnes eu gwahodd i ystyried cynigon a amlinellwyd i ddod â Biliau Preifat y DU o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am ragor o wybodaeth am y broses yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a byddant yn dychwelyd at y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**UNRHYW FATER ARALL**

Yn dilyn achlysur diweddar pan gollodd Aelod ddechrau dadl yr oedd i fod i gynnig gwelliannau ei grŵp ynddi, cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa bod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn bwriadu bod yn fwy llym o ran peidio â galw Aelodau sy'n cyrraedd yn hwyr i siarad mewn dadl.